# Adolygiad o Gadernid Sioeau Amaethyddol yng Nghymru

## mewn ymateb i'r argyfwng Covid-19

Adroddiad Cryno (Mehefin, 2020)

Aled Rhys Jones BSc(Anrh), MRICS, FAAV, NSch

AR Y TIR
ON THE LAND



Llun Clawr: Ruth Rees Photography

# Ynglŷn â'r Adroddiad hwn

Nod yr adroddiad hwn yw darparu asesiad cychwynnol o gadernid sioeau amaethyddol yng Nghymru o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Dyma adroddiad cryno o'r adolygiad a gynhaliwyd ym mis Mai 2020.

# Awdur

- Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Aled Rhys Jones, Cyfarwyddwr AR Y TIR / ON THE LAND – cwmni ymgynghorol busnesau gwledig.

- Mae Aled yn Syrfëwr Siartredig a Phrisiwr Amaethyddol cymwysedig.

- Mae'n Ysgolor Ffermio Nuffield hefyd ar ôl cwblhau astudiaeth ryngwladol sylweddol ar ddyfodol cymdeithasau a sioeau amaethyddol yn 2015.

- Mae gan Aled sawl rôl yn y diwydiant amaethyddol a bu'n Brif Weithredwr Cynorthwyol Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC).

AR Y TIR
ON THE LAND


# Pam?

- O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o sioeau amaethyddol ym mhob cwr o Gymru wedi'u canslo ar gyfer 2020.
- Mae gan y sioeau hyn hanes hir a llwyddiannus ac mae ganddynt rôl bwysig yn ein cymunedau gwledig, yn economaidd ac yn gymdeithasol.
- Er ei bod yn iawn bod yr ymdrechion yn canolbwyntio ar ymdrin ag effeithiau uniongyrchol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru am edrych ymlaen at bwynt pan fo sioeau amaethyddol yn cael eu hailgyflwyno ledled Cymru.
- Felly, comisiynwyd yr adolygiad hwn er mwyn deall yn well y materion y maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd ac i ymchwilio i'r cymorth a allai fod ar gael er mwyn diogelu cymdeithasau a sioeau wrth symud ymlaen.

# Y briff...

Sefydlu:

- Y materion sy’n wynebu cymdeithasau a sioeau amaethyddol?
- Y cymorth a allai fod yn angenrheidiol er mwyn helpu cymdeithasau amaethyddol yn y cyfnod hwn?
- Sut gall cymdeithasau helpu ei gilydd a’r gymuned amaethyddol ehangach?
- Beth fyddai’n helpu i ailsefydlu sioeau y tymor nesaf?
- Pa rôl, os o gwbl, sydd gan Lywodraeth Cymru?



# Trosolwg o'r sawl yr ymgynghorwyd â nhw

- Lluniwyd rhestr o'r rhai y byddem yn ymgynghori â nhw mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o gael safbwyntiau gan groestoriad o sioeau amaethyddol, gan amrywio o ran maint a lleoliad daearyddol ar hyd a lled Cymru.

- Cynhaliwyd ymgynghoriadau un i un gydag 16 o gymdeithasau amaethyddol, sy'n gyfrifol am drefnu 20 o sioeau, a 2 sefydliad ymbárel.

- Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn amrywio o sioeau lleol mewn pentrefi bach i sioeau mawr undydd, sioeau rhanbarthol sawl diwrnod o hyd a sioeau cenedlaethol.
- Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau unigol yn gynnar ym mis Mai 2020.

Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi trefnu sioeau amaethyddol dros **28 o ddiwrnodau** gan ddenu cyfanswm **o 560,700** o bobl gyda chymorth **3,600 a mwy o wirfoddolwyr**





Llun : Ruth Rees Photography

# Faint o’r sioeau sydd wedi’u canslo ar gyfer 2020?

- Roedd y mwyafrif helaeth (85%) o sioeau wedi canslo.

- Roedd y rhai a oedd yn ansicr ar adeg yr ymgynghoriad yn cynnwys sioeau a gynhelir yn y Gaeaf fel arfer. Roedd y trefnwyr yn disgwyl tan y byddai mwy o wybodaeth ar gael am y posibilrwydd o godi’r cyfyngiadau symud..



# Mae amseriad y penderfyniad wedi helpu i leddfu rhai o’r effeithiau ariannol

- Roedd y rhan fwyaf o sioeau wedi penderfynu canslo yn hwyr ym mis Mawrth/yn gynnar ym mis Ebrill.
- I’r rhan fwyaf, cafodd y penderfyniad i ganslo yn gynnar ei wneud oherwydd yr angen i leihau neu atal unrhyw gostau y byddai angen eu talu er mwyn cynnal y sioeau.
- Roedd canslo yn gynnar yn golygu mai ychydig iawn, os o gwbl, o gostau uniongyrchol fyddai’n daladwy ac na fyddai modd eu hadfer (e.e. ernesau ar gyfer pebyll neu gostau argraffu trefn sioeau ac ati).
- Ar wahân i’r sioeau undydd a gynhelir fel arfer yn gynnar yn nhymor y sioeau ym mis Mai, fe wnaeth hyn helpu i leddfu (ac mewn rhai achosion dileu) yr effaith ariannol.
- Fodd bynnag, roedd yr effaith ar y sioeau mwy, sawl diwrnod o hyd yn llawer mwy.

# Beth yw effaith canslo?

- Bydd canslo'r sioeau yn cael effaith economaidd a chymdeithasol.
- Mae sioeau yn rhan bwysig o fywyd diwylliannol gan ddwyn ynghyd cymunedau gwledig, mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag unigedd ac iechyd meddwl a bydd effaith eu colli yn cael ei theimlo ledled Cymru.
- Mae sioeau yn dod â budd economaidd sylweddol hefyd i'r economi leol/ranbarthol ac amcangyfrifir bod Sioe Sir Benfro yn dod â budd gwerth £6 miliwn ac amcangyfrifir bod budd ariannol y Sioe Fawr yn werth £40 miliwn. Gan fod yr amcangyfrifon hyn wedi'u gwneud rai blynyddoedd yn ôl, credir bod y gwir fudd economaidd yn llawer uwch erbyn hyn.
- O ran yr effaith ariannol ar gymdeithasau amaethyddol unigol, roedd hyn yn amrywio'n sylweddol yn ddibynnol ar raddfa a strwythur y sioe.
- I sioeau bach lleol a arweinir gan wirfoddolwyr ac sydd heb faes parhaol, roedd yr effaith ariannol yn fach iawn. Roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi canslo'n ddigon cynnar er mwyn osgoi mynd i unrhyw gostau ar gyfer cynnal y sioe ac roeddent wedi penderfynu dwyn ymlaen eu trefniadau i'r flwyddyn nesaf.
- Fodd bynnag, roedd y pwysau ariannol ar gymdeithasau'r sioeau mwy sydd â meysydd parhaol a gorbenion sylweddol yn llawer mwy sylweddol. Gan eu bod yn dibynnu ar gynhyrchu incwm y tu allan i'r sioe drwy logi'r lleoliad a chynnal digwyddiadau trydydd parti, ac ati, bydd yr effaith ar eu hincwm yn ddifrifol iawn tan y bydd y cyfyngiadau wedi'u codi.

# Beth yw'r effaith ariannol?

- Roedd yr ymatebion yn amrywio'n fawr, o effaith ariannol fach iawn i un gymdeithas yn rhagweld colled o tua £1.2 miliwn.

- I'r rhan fwyaf o'r sioeau llai, mae costau wedi'u harbed oherwydd amseriad y penderfyniad a dim ond swm bach o yswiriant oedd gan y rhan fwyaf ohonynt i'w dalu.

- Roedd y sioeau undydd mwy yn rhagweld colledion pum ffigur, ond roedd gan rai ohonynt arian wrth gefn a buddsoddiadau i'w helpu i ddod drwy'r gwaethaf.

- Roedd y sioeau sawl diwrnod o hyd yn rhagweld colledion sylweddol gan fod eu busnes cyfan wedi'i effeithio. Mae'r rhan fwyaf yn cynhyrchu incwm o logi eu meysydd a'u hadeiladau parhaol a gweithgareddau amrywiol eraill ar adegau eraill o'r flwyddyn, ac mae pob un ohonynt wedi cael eu rhoi i'r neilltu oherwydd y feirws.


# Beth yw’r sefyllfa gydag ad-daliadau?

- Mae unrhyw gymdeithas sydd eisoes wedi cael archebion ar gyfer eu sioe yn 2020, wedi gorfod wynebu’r baich ychwanegol o orfod ymdrin ag ad-daliadau. Roedd y rhain yn bennaf ar gyfer archebion stondinau masnach, gwerthiant tocynnau ac unrhyw incwm nawdd yr oeddent wedi’i gael eisoes.

- Mae hyn wedi bod yn broblem yn bennaf i’r sioeau undydd mwy a’r sioeau sawl diwrnod o hyd – ac mae pob un ohonynt (fwy neu lai) wedi mabwysiadu’r un polisi o gynnig ad-daliadau llawn neu’r dewis o ddwyn eu harcheb ymlaen i sioe 2021.

- Mae sawl cwmni wedi dewis ad-daliad yn hytrach na dwyn yr ad-daliad ymlaen i 2021, gan amlygu’r pryderon ynghylch y ffaith bod rhai sioeau ar dir peryglus iawn yn ariannol.

- Tra gall yr opsiwn o ddwyn ymlaen yr archebion i’r flwyddyn nesaf leddfu’r broblem o lif arian yn y tymor byr am y flwyddyn gyfredol, dywedodd nifer o’r rhai yr ymgynghorwyd â nhw y bydd yn gostwng incwm ar gyfer y flwyddyn nesaf.




# Sut mae hyn yn cymharu â Chlwy'r Traed a'r Gennau?

- Yr unig argyfwng y gellir ei gymharu ag ef yw Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001, lle bu'n rhaid canslo yr un nifer o sioeau ar hyd a lled y wlad i bob pwrpas.
- Er bod y rhan fwyaf o sioeau wedi'u cynnal wedi hynny, roedd yn drobwynt i'r diwydiant sy'n cynnal digwyddiadau amaethyddol, a chyflwynwyd rheolaethau bioddiogelwch newydd a thrwyddedau ar gyfer ymgynnull anifeiliaid.
- Fe wnaeth y sioeau golledion sylweddol hefyd wrth i ymwelwyr, noddwyr a masnachwyr ganfod llefydd eraill i fynd iddynt
- Yn y pen draw, mae effeithiau Covid-19 yn llawer mwy ac mae'n effeithio ar yr economi cyfan, nid digwyddiadau amaethyddol yn unig. Meddai un yr ymgynghorwyd ag ef *"Doedd Clwy'r Traed a'r Genau yn ddim i gymharu â hyn!"*.

# Pa mor wydn yw eich cymdeithas/sioe?

- Gofynnwyd i bawb yr ymgynghorwyd â nhw i fesur pa mor wydn oedd eu cymdeithas yn eu barn nhw i oroesi’r argyfwng cyfredol.

- Roedd pob sioe fach leol a phob sioe undydd fawr sydd â phresenoldeb o hyd at 20,000 yn credu eu bod rhwng **eithaf gwydn a gwydn iawn.**

- Roedd y sioeau rhanbarthol a’r sioeau cenedlaethol sawl diwrnod o hyd yn credu eu bod rhwng **eithaf gwydn a gwan o bosibl.**

# A allem golli rhai sioeau o ganlyniad i Covid-19?

- Roedd y rhan fwyaf o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn ofni na fyddai rhai sioeau o bosibl yn dychwelyd ar ôl Covid.

- Penderfynodd rhai sioeau ganslo y llynedd oherwydd ffliw'r ceffylau a bydd canslo am ail flwyddyn yn olynol yn ei gwneud yn anodd iawn i ailsefydlu.

- Gall colli blwyddyn neu ddwy arwain at golli momentwm a brwdfrydedd.

- Credir mai'r rhai ag ychydig iawn o arian wrth gefn, neu dim arian wrth gefn o gwbl, a diffyg gwirfoddolwyr sy'n wynebu'r risg mwyaf.




Llun : Ruth Rees Photography

# Edrych tua 2021…

- Roedd yr holl gymdeithasau yn bwriadu cynnal eu sioe y flwyddyn nesaf, er bod rhai wedi dechrau meddwl am y posibilrwydd y gallai eu sioe yn 2021 fod dan fygythiad os nad oes brechlyn ar gael neu os nad oes strategaeth ymadael wedi'i rhoi ar waith.
- Tybiwyd mai'r cyfyngiadau ar ddigwyddiadau mawr fydd y peth olaf i gael eu codi, felly mae'r ansicrwydd mawr ar gyfer 2021 yn parhau.

# Felly, beth yw'r problemau a'r heriau mwyaf?

MAE'R SIOEAU SAWL DIWRNOD O HYD, MWY O FAINT YN WYNEBU ANAWSTERAU SYLWEDDOL AC UNIONGYRCHOL AC MAE SIOEAU YN GYFFREDINOL YN BRYDERUS AM YR EFFEITHIAU YN Y TYMOR CANOL A'R TYMOR HIR.

GALLAI GYMRYD HYD AT DDWY FLYNEDD CYN Y GALLANT DDYCHWELYD AT RYW FATH O NORMALRWYDD.

MAE YNA BRYDERON HEFYD YNGHYLCH Y FFAITH Y BYDD LLAI O STONDINAU MASNACH A NODDWYR YN Y SIOEAU Y FLWYDDYN NESAF OHERWYDD Y PWYSAU ARIANNOL AR EU BUSNES.

ROEDD RHAI CYMDEITHASAU'N POENI A FYDD EU CONTRACTWYR A'U CYFLENWYR (PEBYLL A MATHAU ERAILL O GYFARPAR ) YN PARHAU I FASNACHU'R FLWYDDYN NESAF.

OS OES LLAI O GWMNÏAU O GWMPAS Y FLWYDDYN NESAF, BYDD LLAI O GYSTADLU A BYDD COSTAU'N UWCH.

MAE'N BOSIBL Y BYDDWN YN COLLI RHAI ARDDANGOSWYR DA BYW OHERWYDD Y PWYSAU SYDD AR FUSNESAU FFERMIO GAN BERI I FFERMWYR BENDERFYNU NAD YW ARDDANGOS ANIFEILIAID YN FLAENORIAETH

AR GYFER SIOEAU GYDA STAFF CYFLOGEDIG – MAE YNA BRYDER HEFYD OHERWYDD DISWYDDIADAU POSIBL WRTH I'R CYNLLUN FFYRLO GAEL EI LEIHAU A DIRWYN I BEN.

MAE YNA ANSICRWYDD YNGHYLCH BARN, HYDER AC AGWEDDAU'R CYHOEDD O RAN MYNYCHU DIGWYDDIADAU MAWR YN Y DYFODOL – A FYDD POBL YN BRYDERUS AC YN RHY NERFUS I FYNYCHU?

A fyddwn yn gweld golygfeydd fel hyn eto yn fuan?...





# Problemau a heriau

A fydd rheoliadau newydd ar gyfer iechyd y cyhoedd i drefnwyr digwyddiadau, h.y. a fydd angen mwy o gyfleusterau ymolchi dwylo a mesurau cadw pellter cymdeithasol er mwyn rheoli'r feirws ac ati?

A allai hyn roi mwy o bwysau ariannol ar sioeau?

# Beth yw barn y cyhoedd am ddychwelyd i ddigwyddiadau byw?


# Arolwg Dychwelyd i ddigwyddiadau Byw

- Yn dilyn trafodaethau â'r International Association of Fairs & Expositions (IAFE), rhannwyd arolwg a gomisiynwyd ar y cyd er mwyn casglu disgwyliadau pobl yng Ngogledd America sy'n mynychu sioeau am ddychwelyd i ddigwyddiadau byw.

- Cynhaliwyd yr arolwg gan Enigma Research.

- Cawsant 2,000 a mwy o ymatebion o blith holl daleithiau'r Unol Daleithiau ac o blith 10 talaith yng Nghanada.

- Dyma rai o'r casgliadau....



## 1. Mae'r rhai sy'n mynychu digwyddiadau byw wedi gweld colled fawr ar eu hôl

- Dywedodd 94% eu bod wedi colli mynychu digwyddiadau byw yn fawr iawn neu wedi eu colli "i ryw raddau"
- Roedd y canlyniadau'n gyson ar draws pob math o ddigwyddiadau, rhanbarthau daearyddol a grwpiau oedran

## 2. Mwyafrif uchel yn debygol o ddychwelyd

- Mae 76% yn bendant y byddant yn dychwelyd neu'n debygol iawn o wneud hynny unwaith y bydd digwyddiadau mawr yn ailgychwyn
- Dim ond 8% a ddywedodd na fyddant yn debygol o ddychwelyd

## 3. Mae'r rhai sy'n annhebygol o ddychwelyd wedi rhoi rhesymau

Ymysg yr 8% na fyddai'n dychwelyd, roedd pob un fwy neu lai yn bryderus am y feirws

- Roedd llawer yn teimlo hefyd y byddai rheolau cadw pellter a mesurau eraill yn gwneud dychwelyd i ddigwyddiadau yn brofiad annymunol

## 4. Bydd llawer yn dychwelyd yn eithaf cyflym tra bydd yn well gan eraill ddisgwyl

Byddai bron i hanner yn dychwelyd o fewn wythnos neu bythefnos o ddyddiad cychwyn digwyddiadau byw

- Byddai'r gweddill yn disgwyl yn hirach, gydag 20% yn disgwyl 3 mis a mwy

## 5. Byddai rhagofalon diogelwch yn golygu y byddai'r rhai sy'n mynychu digwyddiadau yn fwy tebygol o ddychwelyd

- Byddai tri chwarter yn fwy tebygol o ddychwelyd petai rhagofalon glanweithdra yn cael eu sicrhau
- Byddai masgiau ar gyfer gweithwyr a systemau digyffwrdd yn annog llawer i ddychwelyd hefyd

## 6. Byddai rhoi rhai mesurau diogelwch eithafol ar waith yn cael croeso brwd

- Mae dau o bob pump yn fwy tebygol o fynychu os yw digwyddiadau yn mesur tymheredd y corff wrth y fynedfa
- Byddai digwyddiadau llai, oriau estynedig a chynyddu mesurau cadw pellter cymdeithasol hefyd yn atebion poblogaidd

## 7. Byddai rhagofalon diogelwch amrywiol yn atal rhai pobl rhag mynychu digwyddiadau

- Byddai 27% yn llai tebygol o ddychwelyd os oedd angen gwisgo masgiau
- Mae 23% yn llai tebygol o ddychwelyd os oedd angen i'r rhai oedd yn mynychu gadw pellter cymdeithasol

## 8. Byddai gweithgareddau hyrwyddo a chymhellion hefyd yn annog pobl i ddychwelyd i ddigwyddiadau byw

- Roedd y rhan fwyaf yn dweud y byddai gostwng y pris mynediad yn golygu y byddai mwy o bobl yn debygol o ddychwelyd

## 9. Mae gan lawer safbwyntiau cryf ynghylch dychwelyd i ddigwyddiadau byw

- Mae 70% yn frwdfrydig iawn ynghylch dychwelyd a byddai 25% yn talu mwy hyd yn oed petai'r niferoedd sy'n cael mynychu yn cael eu cyfyngu
- Ar y llaw arall, ni fydd 18% yn mynychu unrhyw ddigwyddiad byw tan y bydd yna frechlyn ar gyfer y feirws

## 10. Mae'r rhai sy'n mynychu digwyddiadau yn gwerthfawrogi brandiau sy'n cefnogi digwyddiadau sydd wedi'u canslo neu eu gohirio

- Fel arfer, mae 38% o bobl sy'n mynychu digwyddiadau yn teimlo'n "ffafriol iawn" tuag at noddwyr a brandiau sy'n cefnogi digwyddiadau byw
- Mewn cymhariaeth, mae 58% yn teimlo'r un fath ynghylch noddwyr sy'n cefnogi digwyddiadau sydd wedi'u canslo neu eu gohirio.

Er nad yw hwn yn arolwg i’r DU gyfan, mae’r hyn y mae’n ei ddatgelu, serch hynny, am ymddygiad posibl ymwelwyr wrth i’r sioeau ddychwelyd ar ôl Covid-19 yn ddiddorol iawn

# Heriau eraill tymor hir

- Dyma'r ddau her tymor hir arall y mae nifer o sioeau yn eu hwynebu:
  - Yr angen i ddenu **gwirfoddolwyr** ac ieuenctid i bwyllgorau sioeau,
  - Yr angen i annog mwy o **arddangoswyr da byw**
- Er bod yr heriau hyn yn bodoli cyn pandemig Covid-19, roedd cymdeithasau'n bryderus na fyddai rhai gwirfoddolwyr ac arddangoswyr da byw yn dychwelyd o bosibl wedi i'r sioe eleni gael ei chanslo.
- Cyfeiriodd dau o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg hefyd at yr Unedau Cwarantin a'r angen i lacio rhai rheoliadau er mwyn annog mwy i arddangos da byw yn y dyfodol.
- Er bod yna bryder ynghylch y diffyg gwirfoddolwyr, roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn credu bod y pandemig wedi ailgynnau ysbryd cymunedol ac undod cymdeithasol. Yn sgil hyn, roedd rhai'n credu y byddai pobl yn fwy parod i helpu cymdeithasau'r sioeau i ailsefydlu'r flwyddyn nesaf. Cafwyd nifer o enghreifftiau o Glybiau Ffermwyr Ifanc ar hyd a lled Cymru yn gwirfoddoli i helpu'r gymuned dros y misoedd diwethaf a'r gobaith yw y bydd yr ysbryd hwn yn parhau.

# Pa gymorth a allai fod yn angenrheidiol?

- Fe wnaeth y cymdeithasau mwy sy'n wynebu colledion sylweddol chwe ffigur (neu ragor) gais am gymorth ariannol, ar ffurf grant achub argyfwng yn hytrach na benthyciad.

- Nid oedd y rhan fwyaf o sioeau eraill (bach i ganolig) yn credu bod cymorth ariannol ar gyfer eu sioe yn angenrheidiol cyn belled â'u bod yn gallu cynnal eu sioe y flwyddyn nesaf yn ôl yr arfer. Nododd y rhai sydd â digon o arian wrth gefn hefyd y dylid blaenoriaethu arian cyhoeddus i rywle arall, tuag at iechyd cyhoeddus a helpu busnesau i adfer ac ati yn ystod y cyfnod hwn.

- Ar wahân i grantiau bach i brynu cyfarpar, roedd trefnwyr y rhan fwyaf o sioeau yn credu y byddai mathau eraill o gymorth yn werthfawr, yn enwedig cymorth gyda chanllawiau ymarferol ynghylch unrhyw fesurau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol ar gyfer sioeau, cymorth gyda marchnata pan fydd y sioeau yn cael eu hailgyflwyno (o bosibl ymgyrch wedi'i chydgysylltu) a chymorth i gynnal rhith gystadlaethau/gweithgareddau.

# Oes modd i sioeau helpu ei gilydd?

- Oes! Roedd pob cymdeithas yn credu y byddai gweld sioeau yn cydweithredu ar raddfa fwy ac yn rhannu gwybodaeth/arferion gorau yn werthfawr fawr.

- Roedd rhai'n credu y gallai sioeau ddefnyddio'r un systemau TG, rhannu cyfarpar ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer caffael cydweithredol.

- Gwelwyd enghraifft o gydweithredu yn Sir Drefaldwyn lle gwelwyd grŵp o bump o sioeau bach lleol yn creu pamffled ar y cyd bob blwyddyn er mwyn marchnata dyddiadau a gwybodaeth allweddol ar gyfer eu sioeau.

- Cyfeiriwyd sawl gwaith at yr Association of Shows and Agricultural Organisations (ASAO) – sefydliad ymbarél y DU ar gyfer sioeau a'u rôl wrth hwyluso canllawiau a chymorth. Awgrymwyd y byddai rhith ddigwyddiad ASAO yn ddefnyddiol yng Nghymru pan fyddai mwy o wybodaeth ar gael am godi'r cyfyngiadau.

# Oes yna unrhyw agweddau cadarnhaol wedi dod i’r amlwg?

- Yn ôl rhai o’r bobl yr ymgynghorwyd â nhw, bydd y pandemig yn gorfodi sioeau i arloesi, i feddwl am syniadau newydd a chodi’r safon.
- Mae yna enghreifftiau o gystadlaethau a rhith sioeau yn cael eu cynnal ar-lein, sy’n golygu cyfleoedd newydd. Dywedodd ysgrifennydd un sioe y gallai cystadlaethau gwartheg ar-lein gynnwys ffermwyr a buchesau sy’n wynebu cyfyngiadau symud TB ar hyn o bryd ac yn methu â mynychu sioeau.
- Mae’r pandemig wedi tynnu sylw at bwysigrwydd diogelwch bwyd a rôl bwysig y ffermwr. Roedd llawer yn ystyried hyn yn beth cadarnhaol ac yn credu mai rôl sioeau yw cau’r bwlch rhwng y cynhyrchydd a’r defnyddiwr, y trefol a’r gwledig, ac mae hyn yn bwysicach nag erioed.
- Gwelwyd nifer o enghreifftiau o sioeau yn cyflwyno rhith weithgareddau newydd a mentrau addysgol, bydd rhai yn dod yn rhan o’u gwaith craidd ar ôl Covid.
- Mae rhai o feysydd y sioeau yn darparu cyfleusterau fel canolfannau profi ac yn mynd ati i gynnig eu safleoedd er mwyn helpu gyda’r ymdrech.
- Roedd trefnwyr rhai o sioeau yn gweld hyn fel blwyddyn o seibiant a fyddai’n ddefnyddiol iawn – gan roi amser i bwyso a mesur a rhoi systemau a gweithdrefnau newydd ar waith a allai fod wedi eu gwthio i waelod y pentwr o bethau i’w gwneud ers rhai blynyddoedd.

# Oes rôl ar gyfer y Llywodraeth?

- Yn gyffredinol roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn gadarnhaol ynghylch diddordeb rhagweithiol Llywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y sioeau'n goroesi.

- Ar wahân i gefnogi sioeau drwy gymorth ariannol a mentrau eraill, un o gwestiynau allweddol yr adolygiad oedd – ai rôl y llywodraeth yw cydgysylltu cydweithredu gwell rhwng sioeau neu ai rôl y sector ydyw? Er bod hyn, ym marn yr awdur, yn rhywbeth y dylai'r sector ei arwain, efallai fod angen cymorth ac anogaeth gan y Llywodraeth er mwyn sefydlu strwythur mwy ffurfiol a allai helpu i wneud sioeau ledled Cymru yn fwy gwydn.

# Casgliadau (1)

- Bydd argyfwng Covid-19 yn effeithio ar bob sioe amaethyddol ledled Cymru.
- Roedd 85% o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw eisoes wedi canslo'r digwyddiadau roedden nhw wedi'u cynllunio ar gyfer yr haf ac roedd cryn amheuaeth ynghylch y gallu i gynnal unrhyw sioeau gaeaf eleni.
- Ymddengys bod sioeau bach lleol yn fwy gwydn (yn ariannol) gan eu bod wedi canslo'n gynnar er mwyn atal costau ac maen nhw'n bwriadu dwyn ymlaen y trefniadau i'r flwyddyn nesaf.
- Ymddengys mai'r sioeau sirol a sawl diwrnod o hyd sy'n fwy o faint yw'r rhai sy'n wynebu'r heriau ariannol mwyaf, yn enwedig y rhai sydd â gorbenion o gynnal meysydd parhaol.

# Casgliadau (2)

- Waeth beth fo'u maint, strwythur neu leoliad, roedd yr holl sioeau yn bryderus am y sefyllfa'r flwyddyn nesaf.
- Mae heriau'n bodoli mewn perthynas â'r graddau y mae cyflenwyr seilwaith ar gael ac o ran masnachwyr, noddwyr, gwirfoddolwyr ac arddangoswyr da byw ac a fyddant yn fodlon cefnogi sioeau yn y dyfodol.
- Mae'n bosibl y gallai rheoliadau iechyd cyhoeddus ei gwneud yn ofynnol i sioeau ailstrwythuro ar gyfer y flwyddyn nesaf neu beri bod rhai digwyddiadau yn amhosibl i'w cynnal.
- Mae'n gwbl hanfodol i drefnwyr digwyddiadau gael canllawiau ar gyfer unrhyw fesurau iechyd cyhoeddus yn y dyfodol.

# Casgliadau (3)

- Er bod sioeau bach lleol yn ymddangos yn wydn yn y tymor byr ac er bod gan rai o'r sioeau mwy arian wrth gefn i'w helpu i ddod drwy'r gwaethaf, mae'r posibilrwydd o ganslo sioeau 2021 yn golygu y bydd yr heriau sy'n eu hwynebu yn llawer mwy.

- Bydd colli momentwm am ddwy flynedd neu ragor yn ei gwneud yn fwyfwy anodd ailgyflwyno sioeau.

- Mae'n debygol iawn y bydd argyfwng Covid-19 yn cael effaith llawer mwy ar ddiwydiant y sioeau na Chlwy'r Traed a'r Genau yn 2001.

- Roedd pawb yr ymgynghorwyd â nhw yn cytuno y bydd rhai sioeau yn cael eu colli oherwydd y pandemig ac mae'n bosibl na fyddant yn dychwelyd.

- Fodd bynnag, roedd ymgynghorwyr yn cydnabod y pethau cadarnhaol, a oedd yn cynnwys y cyfle i ailasesu, rhoi newidiadau ar waith er mwyn gwella'r sioe, cyflwyno rhith gystadlaethau/gweithgareddau newydd ac arloesol a manteisio ar y ffaith bod ffermwyr a chynhyrchwyr bwyd yn cael eu gwerthfawrog'n fwy nag erioed.

# Argymhellion (1)

## Argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol ...

1. Ystyried a ddylid cynnig cymorth ariannol, ar ffurf nawdd neu ar ffurf arall i CAFC er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd a digynsail hwn. Dylid ystyried hyn ar sail dadansoddiad manwl o'u sefyllfa ariannol, rhywbeth oedd y tu hwnt i gylch gorchwyl yr arolwg hwn.
2. Ymchwilio i'r posibilrwydd o roi rhywfaint o gymorth ariannol er mwyn sicrhau bod sioeau sirol yn goroesi (yn enwedig y rhai sydd â meysydd parhaol). Unwaith eto, byddai hyn yn ddibynnol ar ddadansoddi eu sefyllfa ariannol.
3. Paratoi a rhannu canllawiau ymhlith trefnwyr sioeau yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal digwyddiadau yn 2021 yn unol ag unrhyw fesurau neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus sydd ar waith. Dylai'r canllawiau hyn fod ar gael cyn gynted ag y bydd hynny'n ymarferol bosibl, erbyn Rhagfyr 2020/Ionawr 2021 os oes modd.

# Argymhellion (2)

## Argymhellir y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol …

4. Ystyried sefydlu 'Cronfa Arloesi' lle gallai sioeau o bob maint gynnig syniadau ar gyfer cymorth. Dyma gyfle i arloesi a gallai cronfa helpu cymdeithasau i arbrofi gyda syniadau newydd, cynnal rhith gystadlaethau neu chwilio am ffyrdd o wella eu hôl-troed carbon, er enghraifft. Gallai cronfa o'r fath gael ei gweinyddu gan y sefydliad ymbarél ar gyfer sioeau - yr ASAO neu gymdeithas gyda chwmpas cenedlaethol fel CFAC.

5. Annog mwy o gydweithredu rhwng sioeau yng Nghymru a chydweithio ag ASAO er mwyn cefnogi'r uchelgais hon, gan bwyso arnynt i gynnal digwyddiadau (rhai rhith neu fel arall) i gefnogi'r diwydiant wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

6. Gweithio ochr yn ochr â Croeso Cymru er mwyn sefydlu sut gellir hyrwyddo'r ffaith bod sioeau yn dychwelyd yn 2021. Gellir gwneud hyn gan ddilyn thema 2021 – "Blwyddyn yr Awyr Agored".

7. Ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno rhywfaint o hyfforddiant strwythuredig drwy Lantra neu bartneriaid eraill, gan gynnig Datblygiad Proffesiynol Parhaus wedi'i achredu neu gymwysterau ffurfiol i unigolion sy'n gweithio yn niwydiant y sioeau. Yn ychwanegol, a allai gwirfoddoli gyda phwyllgor sioe gael ei gydnabod mewn rhyw ffordd mewn cynlluniau cymorth amaethyddol presennol neu yn y dyfodol?

Aled Rhys Jones BSc(Anrh), MRICS, FAAV, NSch

Cyfarwyddwr

AR Y TIR
ON THE LAND

aled@ontheland.co.uk

*Cedwir pob hawl © AR Y TIR / ON THE LAND 2020*



Llun: Ruth Rees Photography